

Defnyddio capecitabine a thegafur gydag uracil ar gyfer canser colorefrol metastatig

**Deall arweiniad NICE - gwybodaeth i bobl
sydd â chanser colorefrol a'r cyhoedd**

Defnyddio capecitabine a thegafur gydag uracil ar gyfer canser colorefrol metastatig

Deall arweiniad NICE - gwybodaeth i bobl sydd â chanser colorefrol a'r cyhoedd

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2003

I archebu copïau

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn drwy Linell Ymateb y GIG, rhif ffôn 0870 1555 455 gan ddyfynnu cyfeirnod N0224. Mae arfarniad technoleg NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, *Arweiniad ar ddefnyddio capecitabine a thegafur gydag uracil ar gyfer canser colorefrol metastatig* ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd drwy Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0221

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-297-0

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Mai 2003

Teiposod: Icon Design
Argraffwyd gan: ABBA Litho

© Hawlfraint y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Mai 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn at ddibenion addysgol a di-elw o fewn y GIG. Ni chaniateir ei atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Sefydliad.

Cynnwys

Beth yw arweiniad NICE?	5
Beth yw cancer colorefrol metastatig?	6
Pa feddyginiaethau ar gyfer cancer colorefrol a gafodd eu hystyried gan NICE?	6
Beth mae NICE wedi ei argymhell am ddefnyddio capecitabine a thegafur gydag uracil?	7
Beth ddylwn i ei wneud?	7
A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?	8
Gwybodaeth Bellach	8

Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad ar gyfer y GIG a chleifion ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol ac o dan pa amgylchiadau y dylid eu defnyddio.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn ystyried pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'u gofalmwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt. Bydd pob arfarniad yn cymryd tua 12 mis i'w gwblhau.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am y meddyginiaethau capecitabine a thegafur gydag uracil a rhoi arweiniad a fyddai'n helpu'r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid eu defnyddio ar gyfer pobl sydd â chanser colorefrol metastatig.

Beth yw cancer colorefrol metastatig?

Mewn cancer colorefrol metastatig, bydd celloedd cancer wedi torri'n rhydd o'r prif ganser yn yr abdomen ac wedi cael eu cario yn y gwaed neu'r systemau lymff i safleoedd pell lle y byddant wedi aros a ffurfio canserau newydd (yr enw ar y rhain yw metastases neu ganserau eilaidd) Mae hwn yn gam datblygedig o'r cancer.

Pa feddyginiaethau ar gyfer cancer colorefrol a gafodd eu hystyried gan NICE?

Edrychodd NICE ar ddwy feddyginiaeth: capecitabine a thegafur a gaiff ei gymryd gydag uracil.

Caiff capecitabine ei gymryd drwy'r geg a gellir cymryd tegafur gydag uracil yn eneuol hefyd. Unwaith y bydd y meddyginiaethau yn y corff, byddant yn cael eu newid i'r un sylwedd, sef fluorouracil, sy'n ceisio atal celloedd cancer rhag ymrannu.

Beth mae NICE wedi ei argymell am ddefnyddio capecitabine a thegafur gydag uracil?

Mae NICE wedi argymell y dylai capecitabine neu degafur gydag uracil (ac asid folinic), i'w cymryd drwy'r geg, gael eu hystyried fel un o'r opsiynau cyntaf ar gyfer pobl sydd â chanser colorefrol metastatig. Dylai'r dewis o feddyginiaeth gael ei wneud ar y cyd rhwng y claf a'i feddyg/meddyg, a dylai'r claf gael ei hysbysu o'r opsiynau a'r gwahaniaethau rhwng y meddyginiaethau fel y gall gymryd rhan lawn yn y penderfyniad.

Nododd NICE hefyd y dylai'r defnydd o gapecitabine a thegafur gydag uracil gael ei oruchwyllo gan feddygon sy'n arbenigo mewn defnyddio meddyginiaethau ar gyfer canser colorefrol.

Beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych yn ansicr a yw'r arweiniad hwn yn berthnasol i chi, dylech ei drafod gyda'ch meddyg/arbenigwr yn ystod eich apwyntiad nesaf.

A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad hwn ei adolygu ym mis Ionawr 2006.

Gwybodaeth Bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn a roddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir hefyd gofyn am yr arweiniad llawn drwy ffonio 0870 1555 455 a dyfynnu cyfeirnod N0221.

I gael gwybodaeth bellach am faterion iechyd, ewch i Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.nhs.uk)